

DEWIS O RYWOGAETHAU COED

TAFLEN FFEITHIAU CALU

Chwefror 2009

Cyf: 050206



Wrth ddewis coeden ar gyfer safle, mae'n bwysig ystyried cyfuniad o ffactorau safle (e.e. math o bridd, dyfnder y pridd, natur agored) ac amcanion (e.e. a yw'r coed ar gyfer creu cynefinoedd yn bennaf, ar gyfer cynhyrchu tanwydd coed, cynhyrchu pren neu gysgod). Nid yw'n bosibl rhoi rhestr derfynol o'r coed "gorau" ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, ond mae'r tablau canlynol yn rhoi ychydig o wybodaeth gyffredinol am ofynion y safle ar gyfer y coed a blannir amlaf yng Nghymru.

CONIFFERAU

Rhywogaethau	Gofynion y safle			Tua hyd y cylchdro (blynyddoedd) ar gyfer coed
	Pridd	Golau	Amylgrwydd	
Llarwydden Ewrop <i>Larix decidua</i>	Llaith, wedi draenio'n dda, eithaf ffrwythlon	Angen llawer o olau	Methu â gwrthsefyll gwyntoedd hallt a gormod o amylgrwydd. Yn gryf mewn gwynt	50-55
Llarwydden Japan <i>Larix kaempferi</i>	Eithaf ffrwythlon (pridd llai ffrwythlon na Llarwydden Ewrop)	Angen llawer o olau	Methu â gwrthsefyll gwyntoedd hallt a gallu gwrthsefyll amlygiad a llygredd yn eithaf. Yn gallu gwrthsefyll gwynt	45-50
Sbriwsen Norwy <i>Picea abies</i>	Pridd cyffredin	Yn gallu gwrthsefyll cysgod cymedrol	Methu â gwrthsefyll gwyntoedd hallt na mwg. Ddim yn gallu gwrthsefyll rhew yn gyfan gwbl. Yn debygol o gwmpo mewn gwyntoedd ar dir bas.	70-75
Sbriwsen Sitca <i>Picea sitchensis</i>	Pridd cyffredin	Angen mwy o olau na sbriwsen Norwy	Gallu gwrthsefyll gwyntoedd hallt ac amlygiad. Gallu gwrthsefyll mwg a llygredd yn eithaf. Yn debygol o gwmpo mewn gwyntoedd ar dir bas neu wlyb.	55-60
Pinwydden wyllt <i>Pinus sylvestris</i>	Ysgafn	Angen llawer o olau	Yn gallu gwrthsefyll rhew. Methu a gwrthsefyll amlygiad eithafol. Yn gallu gwrthsefyll gwynt.	75-80
Ffynidwydden Douglas <i>Pseudotsuga menziesii</i>	Dwfn, wedi draenio'n dda, ffrwythlon	Yn gallu gwrthsefyll cysgod cymedrol	Yn dueddol o fethu â gwrthsefyll rhew ac amlygiad. Methu â gwrthsefyll mwg a llygredd. Yn gallu gwrthsefyll gwynt yn eithaf.	55-60



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



DAIL LLYDAN

Rhywogaethau	Gofynion y safle			Tua hyd y cylchdro (blynyddoedd) ar gyfer coed
	Pridd	Golau	Amlygiad	
Sycamorwydden <i>Acer pseudoplatanus</i>	Pridd cyffredin	Yn gallu gwrthsefyll cysgod cymedrol.	Yn gallu gwrthsefyll rhew yn eithaf, ynghyd ag amlygiad a llygredd. Yn gallu gwrthsefyll gwynt yn dda iawn.	45-50
Bedwen arian <i>Betula pendula</i>	Pridd cyffredin, ond well ganddo bridd sychach	Angen llawer o olau	Yn gallu gwrthsefyll rhew ac amlygiad, a gallu gwrthsefyll gwynt.	45-50
Bedwen gyffredin <i>Betula pubescens</i>	Pridd cyffredin, addas ar gyfer pridd gwlypach	Angen llawer o olau	Yn gallu gwrthsefyll rhew ac amlygiad, a gallu gwrthsefyll gwynt	45-50
Castanwydden felys <i>Castanea sativa</i>	Wedi'i ddraenio'n dda; eithaf ffrwythlon	Yn hapus mewn cysgod pan fydd yn ifanc, ond angen mwy o olau fel mae'n aeddfedu	Yn fregus gyda rhew; methu â gwrthsefyll amlygiad. Yn gallu gwrthsefyll gwynt	75-80
Ffawyddden <i>Fagus sylvatica</i>	Wedi'i ddraenio'n dda; hoffi pridd dros galchfaen	Yn gallu gwrthsefyll cysgod	Yn dueddol o fethu â gwrthsefyll rhew; gallu gwrthsefyll mwg. Yn gallu gwrthsefyll gwynt yn eithaf, ac eithrio ar bridd bas.	90-95
Onnen <i>Fraxinus excelsior</i>	Llaith, ond wedi'i ddraenio'n dda; eithaf ffrwythlon	Yn gallu gwrthsefyll cysgod am y pump neu'r chwe blynedd gyntaf, wedyn angen llawer iawn o olau	Yn fregus gyda rhew, ond mae'r rhan fwyaf o goed brodorol yn deilio'n ddigon hwyr i osgoi rhew'r gwanwyn. Yn gallu gwrthsefyll gwynt.	45-50
Ceirios <i>Prunus avium</i>	Pridd dwfn, wedi'i ddraenio'n dda, gorau oll dros galchfaen	Angen llawer o olau	Yn gallu gwrthsefyll rhew, ond nid amlygiad. Yn gallu gwrthsefyll gwynt yn eithaf.	45-50
Derwen ddigoes <i>Quercus petraea</i>	Wedi'i ddraenio'n dda, eithaf ffrwythlon	Angen llawer o olau	Caled, a gallu gwrthsefyll gwynt.	90-100
Derwen goesynnog <i>Quercus robur</i>	Eithaf ffrwythlon, ffynnu mewn pridd eithaf trwm	Angen llawer o olau	Ychydig yn dueddol o fethu â gwrthsefyll rhew. Yn gallu gwrthsefyll gwynt.	90-100

Dylid cysylltu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth cyn plannu unrhyw goetir newydd. Mae'n debyg y bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer plannu mwy na dau hectar mewn ardaloedd sensitif (e.e. Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) neu bum hectar yn rhywle arall.

Er yr ymdrechir i'r eithaf i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys.

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Yn Cefnogi Defnydd Tir Cynaliadwy